# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1A, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN, ddydd Mawrth 3 Ebrill 2018 am 2.00pm.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Julia Hughes, Peter Lamb, Anne Mellor ac Ian Trigger (Cadeirydd) ynghyd â'r Cynghorwyr Gordon Hughes, Paul Penlington ac Andrew Thomas.

Roedd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a’r Cynghorydd Mark Young yn bresennol fel arsylwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

**Hefyd yn bresennol – Cynrychiolwyr Llanbedr Dyffryn Clwyd (BB a LE)**

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor i'r cyfarfod a chynnig croeso cynnes i ddau aelod newydd y Pwyllgor, Mr Peter Lamb a'r Cynghorydd Gordon Hughes. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd am eu presenoldeb hefyd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Dim

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau i Aelod wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Enwebodd y Cynghorydd Andrew Thomas yr Aelod Annibynnol Julia Hughes, ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Paul Penlington. Ni dderbyniwyd enwebiadau eraill ac felly;

***PENDERFYNWYD** bod yr Aelod Annibynnol Julia Hughes yn cael ei phenodi yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.*

## 3 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad personol gydag eitem 12 fel aelod o Gyngor Tref Prestatyn.

Datganodd yr Aelod Lleyg Annibynnol Peter Lamb gysylltiad personol gydag eitem 7 gan fod aelod o’r teulu wedi cynnal trafodaethau busnes ynglŷn â’r safle arfaethedig.

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Medi 2017.

**Materion yn codi -**

Tudalen 8- eitem 4- materion yn codi yn y cofnodion - dosbarthodd y Swyddog Monitro gopïau papur yn rhestru manylion cyswllt Clercod Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas.

Tudalen 9 – eitem 6 – Hyfforddiant y Cod Ymddygiad – cadarnhaodd y Swyddog Monitro y cynhaliwyd hyfforddiant ac fe gafwyd presenoldeb da. Roedd yr holl Gynghorwyr wedi mynychu’r hyfforddiant.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2017 fel cofnod cywir.*

**6 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu aelodau o'r rhifyn diweddaraf o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2017-Medi 2017 a mis Hydref 2017-Rhagfyr 2017.

Roedd manylion y cwynion a archwiliwyd yn ystod y cyfnodau hyn wedi’u hamlinellu yn yr adroddiad a’u crynhoi gan y Swyddog Monitro.
Ar gyfer chwarter mis Gorffennaf 2017 i fis Medi 2017 roedd 4 crynodeb achos, 3 achos lle y penderfynwyd nad oedd angen camau pellach gan nad oedd tystiolaeth o dorri’r cod ymddygiad ac 1 a gyflwynwyd i Banel Dyfarnu Cymru.

Roedd yr achos a ddygwyd i sylw Panel Dyfarnu Cymru yn ymwneud â chyn-aelod o Gyngor Dinas Sir y Fflint. Roedd y cyhuddiad yn ymwneud â dau e-bost yr oedd y cyn-gynghorydd wedi’u hanfon at reolwr tîm yn adran gynllunio’r Cyngor. Daeth y Panel i’r penderfyniad nad oedd y cyn-Gynghorydd wedi dangos parch nac ystyriaeth ar gyfer swyddog y Cyngor ac roedd ymddygiad o’r fath yn cael ei ystyried fel bwlio ac aflonyddu swyddog y Cyngor. Penderfynodd y Panel drwy benderfyniad unfrydol y dylid gwahardd y cyn-Gynghorydd rhag cymryd rhan yn yr ail-etholiad ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ac unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o 14 mis.

Ar gyfer chwarter mis Hydref 2017 i fis Rhagfyr 2017 roedd 5 crynodeb achos, 4 achos lle y penderfynwyd nad oedd angen camau pellach gan nad oedd tystiolaeth o dorri'r cod ymddygiad ac un achos lle nad oedd angen camau pellach.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef a’r Swyddog Monitro wedi mynychu cyfarfod gydag Ombwdsmon Cymru ac wedi derbyn eglurhad o'r gweithdrefnau a ddilynir wrth flaenoriaethu cwynion. Mae'r penderfyniad i archwilio cwynion o fewn pŵer yr Ombwdsmon.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddog Monitro am y diweddariad ac am yr eglurhad ar gyfer rhai o’r cwynion a dderbyniwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi’r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.*

## 7 CAIS AM OLLYNGIAD GAN GYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Gais am Ollyngiad gan aelodau Cyngor Cymuned Llanbedr DC (copi ynghlwm) i ganiatáu i'r Pwyllgor ystyried y cais, penderfynu a ddylid caniatáu gollyngiad ac unrhyw amodau y dylid eu cynnwys.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Llanbedr DC a chyflwyno’r Cynghorydd Lyn Evans a’r Cynghorydd Bob Barton.

Darparodd y Cynghorydd Bob Barton wybodaeth yn egluro'r rheswm dros y cais am ollyngiad. Yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Mawrth 2017 cafwyd trafodaeth i fynd i’r afael â busnesau lleol a oedd wedi cau yn ddiweddar. Sefydlwyd grŵp i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r dafarn fel Canolbwynt Cymunedol. Mynegodd y Cynghorydd Barton mai bwriad y Canolbwynt Cymunedol fyddai caniatáu i'r gymuned weithio'n rhagweithiol gyda'r gymuned a grwpiau. Roedd nifer o opsiynau wedi'u hystyried a'u harchwilio.
Eglurodd y Cynghorydd Lyn Evans bod cymdeithas wedi’i sefydlu. Roedd y gymdeithas newydd yn cynnwys 2 aelod o’r Cyngor Cymuned. Am y rheswm hwn roeddent yn ceisio cais am ollyngiad.

Cododd y Cadeirydd gwestiwn ynglŷn â pherchnogaeth y dafarn a’i brydlesu i’r gymdeithas newydd. Cadarnhaodd y Cynghorydd Barton y cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrydlesu’r sefydliad yn ôl, ond roedd y trafodaethau yn y camau cynnar ar hyn o bryd. Roedd cyfarfodydd y Cyngor Cymuned wedi’u trefnu i drafod y datblygiad ymhellach wrth i’r prosiect ddatblygu.

Holodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes, a fyddai'r cais am ollyngiad ar gyfer dau Gynghorydd Cymuned yn aros yr un fath yn y dyfodol neu a fyddai'n debygol o newid. Mewn ymateb i’r cwestiwn a godwyd eglurodd y Cynghorydd Evans mai ei fwriad oedd sefydlu’r Canolbwynt Cymunedol a sicrhau ei fod yn cael ei sefydlu a’i gynnal yn effeithlon, ac yna ei drosglwyddo i bartïon eraill sydd â diddordeb.

Eglurodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor y gellir caniatau eithriad neu ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau drwy rinwedd Deddf Llywodraeth Leol 2000. Cyfeiriodd at y rheoliad yn Atodiad 2 a'r rhai a oedd yn berthnasol i'r achos hwn - Rheoliad 2 (d) a (h).

Er mai dim ond un sail sydd ei angen ar y Pwyllgor Safonau i ganiatáu gollyngiad nid oedd yn rhaid iddynt ei ganiatáu. Gallai'r Pwyllgor gyflwyno terfynau amser ac amodau ariannol i'r gollyngiad.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried y gollyngiad ac fe -

***BENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo gollyngiad i ddau Aelod o Gyngor Cymuned Llanbedr DC sef y Cynghorydd Lyn Evans a'r Cynghorydd Tim Baker, mewn perthynas â busnes yn ymwneud â chymdeithas gymunedol a sefydlwyd mewn perthynas â thafarn The Griffin, yn unol â rheoliad 2(h) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymeradwyo Gollyngiadau) (Cymru) 2001:*

*i. mae'r Gollyngiad yn berthnasol i'r ddau aelod a enwyd yn unig;*
*ii. mae'r Gollyngiad yn berthnasol am 6 mis o ddyddiad y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Safonau (3 Ebrill 2018);*
*iii. mae'n rhaid darparu enw a chyfansoddiad y gymdeithas gymunedol i'r Swyddog Monitro o fewn 7 diwrnod ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Safonau (3 Ebrill 2018);*
*iv. mae'r Gollyngiad yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y gymdeithas gymunedol yn unig a byddai angen gollyngiad ychwanegol ar gyfer cysylltiad ariannol gyda'r gymdeithas;*
*v. mae'r Gollyngiad yn caniatáu i'r ddau aelod a enwyd drafod unrhyw fusnes sy'n ymwneud â'r gymdeithas gymunedol ond nid yw'n rhoi caniatâd iddynt bleidleisio ar y materion hyn.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr o Gyngor Cymuned Llanbedr DC am fynychu'r cyfarfod.

Ar y pwynt hwn (15:45pm) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 16.00 pm

## 8 TÂL A CHYFRIFOLDEBAU AELODAU LLEYG

Arweiniodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau drwy'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Atgoffodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau bod aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi gofyn am adroddiad ar Dâl a Chyfrifoldebau Aelodau Lleyg yn y cyfarfod ar 22 Medi.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gosod y ffigyrau tâl. Roedd gan aelodau lleyg sydd â hawliau pleidleisio hawl i hawlio ffioedd dyddiol neu am hanner diwrnod am fynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau awdurdodedig, byddai amser paratoi a theithio yn cael ei gynnwys hefyd.
Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y gallai aelodau Pwyllgorau Safonau hawlio costau teithio pe baent yn mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref, Cymuned a Dinas ar ran y Pwyllgor Safonau. Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i

fynychu cyfarfodydd i ddangos cefnogaeth ac arweiniad i Gynghorau Tref, Cymuned a Dinas.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd am yr adroddiad ac am ateb y cwestiynau a ofynnwyd gan yr Aelodau.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth yn Adroddiad Tâl a Chyfrifoldebau Aelod Lleyg.*

## 9 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru yn Wrecsam ym mis Tachwedd 2017. Roedd y cyfarfod yn llawn gwybodaeth ac wedi'i drefnu'n dda. Tynnodd y Cadeirydd sylw at Gadeirydd y cyfarfod a chanmol ei ddull o gynnal y cyfarfod.

Roedd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) wedi mynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Betws Gwerful Goch. Dywedodd JH bod y cyfarfod yn ddymunol iawn a'i bod wedi cael croeso cynnes. Roedd presenoldeb da yn y cyfarfod ac roedd yn dilyn y rhaglen. Gwnaed cyflwyniadau i'r aelodau ac atebwyd y cwestiynau'n llawn. Tynnwyd lluniau ac fe gymerwyd manylion gan aelodau newydd y Cyngor Cymuned er mwyn eu rhoi ar y wefan. Teimla JH bod y cyfarfod yn gynhyrchiol ac roedd strwythur da iddo. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â Hyfforddiant Cod Ymddygiad ac roedd aelodau presennol ac aelodau newydd yn mynd i fynychu'r hyfforddiant. Hysbysodd JH y pwyllgor ei bod yn teimlo bod y cyfarfod wedi'i drefnu'n dda ac yn ddefnyddiol.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau ynglŷn â pha mor bwysig ydyw bod aelodau'r Pwyllgor yn mynychu cynghorau Cymuned / Tref a Dinas i gynnig cefnogaeth a gwybodaeth. Nododd y Swyddog Monitro bresenoldeb JH a chadarnhaodd y byddai'n diweddaru'r adroddiad presenoldeb i adlewyrchu hyn. Eglurodd y Swyddog Monitro y byddai rhestr newydd o ymweliadau Cynghorau Cymuned / Tref a Dinas yn cael ei dosbarthu i'r aelodau i'w hadolygu a chyda ymweliadau arfaethedig er mwyn i'r aelodau fynychu'r cyfarfodydd.

***PENDERFYNWYD,***

*I. nodi'r presenoldeb a diweddaru'r adroddiad presenoldeb i adlewyrchu hyn.*
*II. rhestr newydd o gynghorau Cymuned, Tref a Dinas yn cael ei dosbarthu i'r aelodau.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w ystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

- Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd – 29 Mehefin 2018
- Adroddiad Cyfryngau Cymdeithasol (CLlLC) – 29 Mehefin 2018
- Diwygio Llywodraeth Leol – 21 Medi 2018
- Briffio cyffredinol ynglŷn â chwynion – 21 Medi 2018

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y diwygiadau uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

## 11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi'i drefnu ar gyfer 10.00am ddydd Gwener 29 Mehefin 2018 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 12 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i roi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ebrill 2014.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y tablau yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o'r cwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2014. Roedd 13 achos heb eu holrhain, 2 achos wedi dod i ben, 9 achos heb eu harchwilio ac 2 achos lle na chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Darparodd y Swyddog Monitro rywfaint o gyd-destun ac eglurhad ynglŷn â chefndir y ddau gŵyn sy'n parhau ac y byddai diweddariadau pellach yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor wrth i'r archwiliadau fynd rhagddynt.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 16:40 p.m.**